

Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd

Dyddiad:
Dydd Iau, 22 Medi 2011

Amser:
09:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

Siân Phipps
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8582
Enterprise&business.comm@wales.gov.uk

Agenda

1. Ymddiheuriadau, cyflwyniad a dirprwyon

2. Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog: Adfywio (9.30 -10.15)

EBC(4)-02-11 Papur 1

- Huw Lewis, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
- Richard Harris, Dirprwy Gyfarwyddwr Adfywio Strategol a Blaenau'r Cymoedd
- Chris Warner, Pennaeth Polisi - Adfywio

3. Sesiwn i graffu ar waith y Dirprwy Weinidog: Rhaglenni Ewropeaidd (10.15 - 11.00)

EBC(4)-02-11 Papur 2

- Alun Davies, y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd
- Damien O'Brien, Cyfarwyddwr, WEFO
- Jane McMillan, Cyfarwyddwr Dros Dro'r Is-adran Rheoli Rhaglenni a Chyllid, WEFO

4. Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog: Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (11.00 - 12.00)

EBC(4)-02-11 Papur 3

- Edwina Hart, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

5. Papurau i'w nodi

- Gohebiaeth gan Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, ynghylch cyfarfod y Pwyllgor Menter a Busnes ar 13 Gorffennaf 2011

EBC(4)-02-11 p4 (Saesneg yn Unig)

- Gohebiaeth gan Carl Sargeant, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, ynghylch cyfarfod y Pwyllgor Menter a Busnes ar 13 Gorffennaf 2011

EBC(4)-02-11 p5 (Saesneg yn Unig)

Y Pwyllgor Menter a Busnes
22 Medi 2011

EBC(4)-02-11

Tystiolaeth gan Huw Lewis, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth

Fy Mlaenoriaethau ar gyfer Adfywio

1. Y cyd-destun

1.1 Pobl a Lleoedd yw ffocws adfywio. Y nod yw creu lleoedd sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor, gan wella ansawdd bywyd y bobl sy'n byw ac yn gweithio o fewn ac o amgylch y lleoedd hyn.

1.2 Mae'r term adfywio yn cwmpasu amryw o weithgareddau gan gynnwys newid gwedd ffisegol mannau trefol gan gadw eu nodweddion unigryw er mwyn eu gwella o safbwynt economaidd a mynd i'r afael â diffygion y farchnad. Mae hefyd yn cynnwys cydweithio â phobl yn eu cymunedau i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol amddifadedd. Mae adfywio ffisegol yn aml iawn yn ymwneud â gwrthdroi neu osgoi dirywiad ardal, neu dargedu buddsoddiad tuag at ardaloedd difreintiedig na fyddant yn denu buddsoddiad fel arall oherwydd bod nifer o ddiffygion yn y farchnad.

Mae gweithgareddau o'r fath yn cael eu cynnal ledled Cymru drwy wahanol sefydliadau a phartneriaethau.

1.3 Mae gennym ni, Lywodraeth Cymru, nifer o raglenni sydd â'r nod penodol o gefnogi adfywio, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf a'r Cynllun Datblygu Gwledig. Rydym hefyd yn buddsoddi ar draws nifer o adrannau er mwyn sbarduno gweithgareddau adfywio.

2. Polisi adfywio cyfredol fy mhortffolio

2.1 Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'n Un yr adeg honno y Fframwaith ar gyfer Ardaloedd Adfywio:

cymru.gov.uk/docs/desh/publications/101018regenareasframeworkcy.pdf .

2.2 I hwyluso'r broses o roi'r Fframwaith ar waith, sefydlwyd Panel Adfywio Cenedlaethol. Mae'r Panel, sydd o dan gadeiryddiaeth Viv Sugar, yn cynnwys y sefydliadau canlynol:

- Llywodraeth Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cynghair Mentrau Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Canolfan Cydweithredol Cymru
- Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
- Cydweithfa Sgiliau Adfywio Cymru
- Ffederasiwn y Busnesau Bach
- Tai Cymunedol Cymru

- Groundwork Cymru

2.3 Mae'r Fframwaith yn bolisi i'r Llywodraeth o hyd, er y gall gwaith polisi gymryd ei le yn y dyfodol. Rwyf wedi cadw'r Panel Adfywio Cenedlaethol ac yn ddiolchgar iawn am ei fewnbnw a'i gyngor parhaus.

2.4 Mae'r Llywodraeth, a phroffesiynau a sefydliadau adfywio, hefyd yn elwa ar waith Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru: www.regenwales.org. Rwyf wrthi'n ystyried y ffordd fwyaf priodol o fwrw ymlaen â'r gwaith hwn ar ôl i drefniadau ariannu Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru ddod i ben ym mis Mawrth 2012.

3. Gweithgareddau cyfredol fy nghyllideb adfywio

3.1 Bu'r Fframwaith ar gyfer Ardaloedd Adfywio yn edrych ar y dull o weithio yn yr Ardaloedd Adfywio a gafodd ei ddatblygu gan ddefnyddio model rhaglen Blaenau'r Cymoedd a sefydlwyd yn 2005. Nod yr Ardaloedd Adfywio yw mynd i'r afael â'r diffyg cydraddoldeb rhwng gwahanol ardaloedd yng Nghymru drwy fuddsoddi mewn mannau sy'n tanberfformio ar hyn o bryd, o safbwynt economaidd a lles, er mwyn gwella'u perfformiad. Drwy fuddsoddi yn yr ardaloedd hyn sy'n tanberfformio, y nod yw gwella ffyniant a lles cyffredinol Cymru gyfan. Y nod yw manteisio ar gyfleoedd buddsoddi a fydd yn sicrhau datblygiad cynaliadwy mewn canolfannau trefol a gwledig.

3.2 Mae'r dull gweithredu hwn ar waith nawr mewn pedair Ardal Adfywio arall ledled Cymru sef Aberystwyth, y Barri, Môn a Menai, Arfordir y Gogledd, Abertawe a Chymoedd y Gorllewin.

3.3 Mae'r Adran Tai, Adfywio a Threftadaeth hefyd yn cefnogi'r sefydliadau a'r partneriaethau canlynol sy'n ymwneud â gweithgareddau adfywio:

- Newport Unlimited (www.newportunlimited.co.uk)
- Awdurdod Harbwr Caerdydd (www.cardiffharbour.com)
- Parc Rhanbarthol y Cymoedd (www.thevalleys.org.uk)
- Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo (www.coalfields-regen.org.uk)
- Groundwork Cymru (www.wales.groundwork.org.uk)

3.4 Ar ran fy mhorthfolio rwyf hefyd yn gyfrifol am Gronfa Buddsoddi Cymru: www.rifw.co.uk.

4. Gweithgareddau adfywio trawsbynciol

4.1 Mae Adfywio yn drawsbynciol ac felly mae'n gofyn am gydweithio agos ar draws portffolios y Llywodraeth ac ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Ymhlith yr enghreifftiau o gydweithio llwyddiannus o fewn ac y tu allan i'r Llywodraeth mae:

- Buddsoddi mewn ad-drefnu addysg bellach yn ardal Blaenau'r Cymoedd er mwyn creu canolfannau dysgu nodedig ym Merthyr Tudful a Glynebwy.

- Ymgyrch Calon ac Enaid y Cymoedd - ffordd boblogaidd o farchnata lleoedd yn y Cymoedd. Mae eisoes wedi ennill tair gwobr.
- NSIP+ (Rhaglen Genedlaethol Estynedig ar gyfer Gwella Gorsafoedd), sy'n defnyddio buddsoddiad y sector cyhoeddus yn Ardal Adfywio Abertawe i alluogi rhoi ar waith brosiect Cymru gyfan gwerth £37 miliwn a ariennir gan gyllid Ewropeaidd.

4.2 Drwy greu fy mhortffolio mae'r Llywodraeth wedi cydnabod y cyfraniad pwysig y gall Tai a Threftadaeth ei wneud at Adfywio. Mae buddsoddi cyfalaf mewn tai, er enghraifft, wedi cyfrannu'n fawr at adnewyddu ardaloedd difreintiedig yn enwedig wrth ymrwmo i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae ansawdd tai pobl yn cael effaith sylweddol ar eu hiechyd meddwl a chorfforol. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnig asedau economaidd (cofebau sy'n rhoi hwb i dwristiaeth er enghraifft) a nodweddion unigryw sy'n gallu helpu i lywio gweithgareddau adfywio mewn ardal benodol. Mae chwaraeon a'r celfyddydau yn cynnig amryw gyfleoedd datblygu cymunedol sydd â manteision economaidd a chymdeithasol.

4.3 Rwy'n benderfynol o wneud y defnydd gorau o'r cysylltiadau rhwng y tair rhan o'm portffolio, gan adeiladu ar y llwyddiannau hyd yma. Mae'r rhain yn cynnwys:

Tai

- Buddsoddi £30 miliwn mewn cyfres o gynlluniau effeithlonrwydd ynni cartref ac ynni adnewyddadwy mewn Ardaloedd Adfywio er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd a defnyddio llai o ynni. Mae hyn wedi arwain at brosiect cam 2 Cymru gyfan a ariennir gan gyllid Ewropeaidd.
- Sicrhau bod buddsoddi mewn tai yn dod â chynifer o fanteision â phosibl i gymunedau o ran prosesau recriwtio a hyfforddiant sydd wedi'u targedu a datblygu'r gadwyn gyflenwi leol. Mae hyn wedi arwain at greu'r pecynnau cymorth Gallu Gwneud.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

- Pennu nodweddion trefol cymunedol allweddol fel Merthyr Tudful i ddangos gwerth treftadaeth a dangos lle mae'n cyfrannu'n gadarnhaol at ddull adfywio sy'n parchu nodweddion unigryw lleol. Gwneud y defnydd gorau o asedau hanesyddol, fel prosiectau'r Castell a Hafod (Copperopolis) yn Abertawe. Gweithio gyda Dyfrffyrdd Prydain a Chanolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru i hybu'r arfer gorau ar gyfer defnyddio treftadaeth dyfrffyrdd wrth wneud gwaith adfywio mewn ffordd sy'n cysylltu pobl a lleoedd.
- Denu buddsoddiad fel Menter Treftadaeth Treflun Cronfa Dreftadaeth y Loteri i sbarduno cyfleoedd adfywio drwy warchod adeiladau hanesyddol.
- Gweithio gyda chymunedau, partneriaid treftadaeth a'r sector twristiaeth i feithrin cyswllt rhwng safleoedd unigol ac atyniadau treftadaeth eraill â'r gymuned a'r ardal gyfagos, yn ogystal â chysylltu â storïau a themâu deongliadol ehangach.

Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac Archifau

- Moderneiddio llyfrgelloedd cyhoeddus i gefnogi gwasanaethau mewn ardaloedd difreintiedig drwy'r Rhaglen Grant Cyfalaf Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol.
- Buddsoddi mewn amgueddfeydd i gasglu, adlewyrchu, hybu a gofalu am hanes a diwylliant materol cymunedau gan greu ymdeimlad o le a pherthyn a gwella ansawdd bywyd.
- Adleoli Swyddfa Cofnodion Gwent (Archifau Gwent bellach) i'r Swyddfeydd Cyffredinol yng Nglynebwy fel rhan o'r prosiect adfywio mawr ar safle'r Gweithfeydd.

Chwaraeon

- Cynnal cyfnod peilot Gemau Cymru, sef prosiect arloesol y mae nifer o gyrff chwaraeon, ysgolion, yr Urdd a'n Huned Digwyddiadau Mawr yn rhan ohono.
- Parhau i fuddsoddi yn ein Menter Nofio am Ddim fel rhan o'n hymgais i godi lefelau o weithgarwch corfforol a llythrennedd corfforol.

Y Celfyddydau

- Cynnal Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus ym Mlaenau'r Cymoedd yn 2011.
- Parhau i roi cymorth i adfywio cymunedau drwy brosiectau fel Plant y Cymoedd, Celf ar y Blaen, Cyrraedd y Brig, Sblash, Young Promoters, a Cherdd Gymunedol Cymru.
- Buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf mawr gan gynnwys Oriel Gelf Glynn Vivian yn Abertawe a'r prosiect Pontio ym Mangor.

5. Polisiâu'r dyfodol

5.1 O fewn fy mhortffolio, fy mlaenoriaethau ar gyfer y dyfodol fydd bodloni ymrwymadau maniffesto rydw i'n gyfrifol amdanyn nhw gan weithio ar draws y Llywodraeth, sef:

- Parhau i ymroi i adfywio canol ein trefi drwy ddefnyddio polisiâu cynllunio i roi bywyd newydd i drefi drwy eu dylunio'n ddiogelach ac yn well, datblygu amgylchoedd sy'n addas i deuluoedd a datblygiadau amldefnydd.
- Adfer ein trefi glan môr drwy fuddsoddi yn eu seilwaith, ac adnewyddu ac adfywio cymunedau.

5.2 Rwy'n croesawu ymchwiliad y Pwyllgor yn ymwneud ag adfywio canol trefi, a fydd yn ddefnyddiol o safbwynt llywio ein gwaith ar yr ymrwymadau hyn.

5.3 Mae nifer o ymrwymiadau maniffesto portffolios gweinidogol eraill naill ai'n berthnasol i'm portffolio i neu â chysylltiadau cadarn iawn ag ef. Efallai yr un mwyaf perthnasol yw:

- Parhau i fuddsoddi yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, gan integreiddio ein Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf gyda phob gweithgaredd adfywio a sicrhau bod pob rhaglen Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth am gyllid i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

5.4 Dros y misoedd nesaf byddaf yn ystyried y ffordd orau o fuddsoddi arian fy mhortffolio yn y dyfodol. Wrth wneud hyn, bydd rhaid i mi sicrhau fy mod:

- yn bodloni'r ymrwymiadau maniffesto uchod
- integreiddio gweithgareddau adfywio ar draws y Llywodraeth ac y tu allan iddi, gan gynnwys o fewn fy mhortffolio i a chyda Cymunedau yn Gyntaf, o fewn fframwaith cydweithio'r gwasanaeth cyhoeddus a gaiff ei lywio gan Adolygiad Simpson a buddsoddiadau strategol arfaethedig ar draws Cymru.
- adeiladu ar yr arfer gorau a'r dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwerthusiadau o brosiectau a rhaglenni cyfredol lle bo'n briodol
- manteisio i'r eithaf ar y cyfleodd sy'n deillio o gylch arall o gyllid Ewropeaidd.

Huw Lewis AC
Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth

Eitem 3

Pwyllgor Craffu Menter a Busnes 22 Medi 2011

**Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd,
Bwyd a Rhaglenni Ewropeaidd.**

CYFLWYNIAD

1. Rwy'n croesawu'r cyfle i amlinellu fy ngweledigaeth a'm blaenoriaethau ar gyfer Rhaglenni Ewropeaidd. Rwyf eisoes wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar elfennau Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd fy mhortffolio.
2. Mae cael yr holl Raglenni Ewropeaidd o dan un portffolio yn rhoi cyfle unigryw i mi gynyddu'r cysylltiadau a'r cydgysylltu rhwng yr amrywiol ffrydiau ariannol hyn a'u defnyddio mewn ffordd fwy holistig, ar draws y Llywodraeth gyfan, er mwyn cynnal twf a swyddi cynaliadwy.
3. Bydd rhaglenni Ewropeaidd yn cael eu halinio'n agos gyda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun strategaeth Ewrop 2020 ar gyfer twf call, cynaliadwy a chynhwysol.
4. Hefyd, rwyf wedi amlinellu yn Atodiad A y gwaith sy'n cael ei wneud ar yr argymhellion perthnasol ar raglenni'r Cronfeydd Strwythurol o adroddiad etifeddiaeth defnyddiol iawn y Pwyllgor Menter a Dysgu.

EIN GWELEDIGAETH AR GYFER RHAGLENNI EWROPEAIDD

5. Sicrhau bod ein Rhaglenni Ewropeaidd ni ymysg y mwyaf llwyddiannus yn yr UE am lunio'r amodau ar gyfer twf economaidd call, cynaliadwy a chynhwysol.

EIN CENHADAETH

6. Gweithio gyda'n partneriaid yn y sector preifat a chyhoeddus ac yn y trydydd sector ledled Cymru i wneud y defnydd gorau o Gronfeydd Ewropeaidd trwy gefnogi buddsoddiadau strategol ac arloesol yn ein seilwaith, yn ein busnesau, yn ein cymunedau ac yn ein pobl.

BLAENORIAETHAU

7. Mae fy mlaenoriaethau yn gofyn am gydbwysedd rhwng canolbwyntio ar gyflwyno rhaglenni presennol yr UE a pharatoi'r ffordd ar gyfer cyflwyno rhaglenni'r UE yng Nghymru o 2014 ymlaen yn effeithiol ac yn effeithlon:
 - (a) Sicrhau bod y Rhaglenni Ewropeaidd presennol yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol a'u bod yn dod â manteision cynaliadwy i bobl, busnesau a chymunedau ar draws Cymru yn unol â pholisïau'r UE a Llywodraeth Cymru;

- (b) Mewn trafodaethau ynghylch dyfodol polisiau Cydlyniant a'r PAC ar lefel y DU a'r UE, cyflwyno achos cryf iawn dros Gymru gan geisio sicrhau canlyniad sy'n adlewyrchu ein hanghenion yn deg ac sy'n rhoi sail ar gyfer cryfhau a llywio amgylchedd yng Nghymru sy'n cynnal swyddi a thwf cynaliadwy;
- (c) Gyda'n partneriaid, datblygu Rhaglenni Ewropeaidd ar gyfer 2014-2020 fydd yn helpu i gyfrannu at amgylchedd cadarnhaol ar gyfer twf a swyddi cynaliadwy o ansawdd, gan adlewyrchu ein huchelgeisiau cyffredin ar gyfer llwyddiant economaidd;
- (d) Symleiddio'r modd y caiff Rhaglenni Ewropeaidd eu rhoi ar waith gan gynnwys mwy o integreiddio ar draws ffrydiau ariannu'r UE ac annog defnyddio dulliau arloesol;
- (e) Cynyddu nifer y cyrff ledled Cymru, gan gynnwys cwmnïau yn y sector preifat, sy'n ymgeisio am gyllid Ewropeaidd a gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu cymorth ariannol mwy cynaliadwy;
- (f) Hybu Cymru fel gwlad sy'n rhagori ac yn arloesi yn y modd y mae'n defnyddio cronfeydd Ewropeaidd a rhannu arferion gorau gyda gwledydd a rhanbarthau ar draws yr UE.

MATERION ALLWEDDOL O BWYSIGRWYDD STRATEGOL

- 8. Mae cyflwyno'r gyfres bresennol o raglenni'r UE yng Nghymru yn llwyddiannus yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Mae'r rhaglenni hyn wedi gwneud cyfraniad pwysig at ein helpu mewn cyfnodau economaidd anodd iawn.
- 9. Bellach, rydym wedi ymrwymo 81% o gyllideb y rhaglen Cronfeydd Strwythurol i brosiectau a gymeradwywyd (dros £1.5 biliwn o grant yr UE). Mae'r prosiectau hyn eisoes wedi cynorthwyo 230,000 o gyfranogwyr ac mae 68,000 ohonynt wedi cael cymorth i ennill cymwysterau a chafodd rhyw 28,500 gymorth i ddod o hyd i waith. Yn ogystal, mae 5,700 o fusnesau wedi cael cymorth sydd wedi helpu i greu dros 8,000 (gros) o swyddi a 1,750 o fentrau newydd. Hefyd, rydym wedi cyflawni pob un o dargedau gwariant y Comisiwn Ewropeaidd (N+2) ar gyfer 2011.
- 10. Mae'r sefyllfa economaidd sydd ohoni, gan gynnwys cyfraddau cyfnewid cyfnewidiol, yn parhau i fod yn her ond rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod y rhaglenni hyn yn parhau i gynorthwyo pobl, busnesau a chymunedau Cymru trwy'r anawsterau hyn yn ogystal â gosod sylfeini ar gyfer twf a swyddi cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
- 11. Hefyd, er mwyn helpu i roi arweiniad a siâp i ddatblygiad unrhyw raglenni newydd, bydd angen gwneud penderfyniadau strategol. Yn ystod y misoedd nesaf, byddaf yn trafod y materion hyn gyda'n partneriaid ledled

Cymru gyda'r nod o ddeall yn iawn i ba gyfeiriad y dylai'r rhaglenni hyn fynd. Mae'r prif faterion i'w hystyried yn cynnwys y canlynol:

- (a) Nodi'r **blaenoriaethau craidd** ar gyfer cymorth ariannol o dan raglenni'r UE yn y dyfodol, gan gynnwys gwneud dewisiadau a defnyddio'r adnoddau er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cymorth a geir;
- (b) I ba raddau y mae targedu daearyddol a thargedu gofodol gan gynnwys ystyried y ffordd orau i gefnogi anghenion **ardaloedd trefol a gwledig** a sut y gallwn ni ddefnyddio dulliau yn ymwneud â rhanbarth dinas a manteisio i'r eithaf arnynt;
- (c) Nodi'r ffyrdd gorau o gyfrannu tuag at nodau **twf call, cynaliadwy a chynhwysol**, gan gynnwys defnyddio cyfryngau buddsoddi ariannol arloesol;
- (d) Ystyried y cydbwysedd a'r sgôp ar gyfer **integreiddio'r** amrywiol gronfeydd UE yng Nghymru yn ogystal â gwneud y mwyaf o effaith y buddsoddiadau hyn;
- (e) Adolygu **dulliau cyflwyno** gyda'r nod o'i gwneud hi'n haws ymgeisio am gyllid ac ar yr un pryd, sicrhau bod y prosiectau o ansawdd uchel.

12. Unwaith y cytunir ar gyfeiriad cyffredinol rhaglenni'r UE yn y dyfodol, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ar fanylion y rhaglenni. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y gwersi a ddysgwyd o raglenni 2007-2013 a rhaglenni cynharach a'r sgôp ar gyfer symleiddio'r trefniadau o roi'r rhaglenni ar waith a chael gwared ar rwystrau sy'n atal cyrff rhag cymryd rhan.

Y CAMAU NESAF

- **Hydref 2011:** Comisiwn Ewrop yn cyhoeddi'r drafft cyntaf o'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r Cronfeydd Strwythurol a'r PAC
- **Tachwedd 2011 - Rhagfyr 2011:** Cynnal "Ymarfer myfyrio" a gwahodd partneriaid i leisio'u barn ar y cychwyn cyntaf ynghylch cyfeiriad strategol rhaglenni'r UE yn y dyfodol
- **Dechrau 2012:** Amlinellu'r weledigaeth sydd gan y Llywodraeth ar gyfer rhaglenni'r UE yng Nghymru yn y dyfodol ac i ba gyfeiriad y mae'n dymuno iddynt fynd
- **Dechrau 2012 – Hydref 2012:** Datblygu'r rhaglenni gyda phartneriaid
- **Hydref 2012:** Ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch rhaglenni'r UE yn y dyfodol

- **Gwanwyn 2013 - Hydref 2013:** Cyflwyno dogfennau'r rhaglenni i'r Comisiwn Ewropeaidd a'u trafod
- **2014:** Lansio a chyflwyno rhaglenni UE 2014–2020 yng Nghymru

13. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn gweithio i sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed gan adeiladu ar y cysylltiadau yr ydym wedi'u gwneud ers tro gyda'r Comisiwn Ewropeaidd a sefydliadau eraill yn yr UE a thrwy fynychu pwyllgorau Cyngor y Gweinidogion fel sy'n briodol.

14. Byddaf yn parhau i weithio'n agos gydag aelodau Senedd Ewrop Cymru a chyda Llywodraeth y DU trwy'r Cydgyngor Gweinidogion ar Ewrop er mwyn mynd ar ôl buddiannau Cymru ar bob lefel o'r drafodaeth. Byddwn yn parhau i ddadlau dros reolau symlach, tecach a mwy cymesur ar gyfer y rownd nesaf o raglenni a mwy o hyblygrwydd yn y ffordd y gallwn ddefnyddio'r cronfeydd hyn i wneud y mwyaf posibl o gyfleoedd ar gyfer twf a swyddi cynaliadwy yng Nghymru.

15. Hefyd, rwy'n adolygu strwythurau mewnol Llywodraeth Cymru a'r trefniadau ar gyfer gweithio ar ffurf partneriaeth er mwyn sicrhau bod y dull a ddefnyddiwn i ddatblygu rhaglenni Ôl-2013 yn fwy integredig.

ATODIAD A: Ymateb i argymhellion adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor Menter a Dysgu

Rwy'n cydnabod y cyfraniad pwysig y mae Pwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad diwethaf wedi'i wneud i'r drafodaeth hon. Isod, nodir y camau gweithredu presennol yn erbyn argymhellion yr adroddiad a etifeddwyd yn ymwneud â Rhaglenni Ewropeaidd.

<p>Argymhelliad 15. Dylai cynnydd wrth weithredu'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol presennol barhau i fod yn destun craffu yn y Pedwerydd Cynulliad. Dylai'r pwyllgor perthnasol ofyn am ddiweddariadau rheolaidd gan Lywodraeth Cymru a cheisio ymchwilio i wahaniaethau ac anghysonderau rhyngranbarthol yn ogystal â chraffu ar berfformiad Cymru o'i gymharu â rhanbarthau eraill y DU a'r UE yn gyffredinol.</p>	<p>Byddaf yn hapus i hysbysu'r Pwyllgor o unrhyw ddatblygiadau ynghylch y Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol. Rydym yn cytuno i fod yn dryloyw wrth ddatblygu a chyflwyno'r rhaglenni yng Nghymru.</p> <p>Hefyd, fel rhan o'i adolygiad o'r dystiolaeth i gyfrannu at ddatblygu rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol newydd, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau ar draws yr UE.</p>
<p>Argymhelliad 16. Mae risg o hyd o gyfrif dwbl a than gyfrif deilliannau neu lwyddiannau prosiectau a allai effeithio ar gynnydd unigolyn a dylai'r Pedwerydd Cynulliad barhau i fonitro hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o hyn ond dylid sicrhau bod systemau casglu data yn osgoi problemau o'r fath, gan gynnwys annog cytundebau lleol pan fydd ymyriadau prosiectau'n gorgyffwrdd.</p>	<p>Mae WEFO yn fodlon bod ei system casglu data ar lefel y cyfranogydd yn caniatáu iddo nodi a yw'r unigolyn wedi ymwneud â mwy nag un prosiect ac i ddilyn hynt y cyfranogwyr o ddiweithdra / anweithgarwch i gyflogaeth. Defnyddir system debyg ar gyfer ERDF lle bydd WEFO yn casglu gwybodaeth ynghylch y busnesau a gefnogir.</p> <p>Hefyd, mae WEFO yn rhoi cyngor ar arferion gorau er mwyn osgoi cyfrif dwbl deilliannau rhwng prosiectau.</p>
<p>Argymhelliad 17. Yn ogystal, dylid annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu cyfres fanylach o ddata i fonitro'r cynnydd y tu hwnt i Werth Ychwanegol Crynswth (GVA) yn unig.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio amrywiaeth o ddangosyddion tracio sy'n rhoi cyd-destun cyffredinol ar gyfer asesu cynnydd prosiectau yn y gorllewin a'r Cymoedd. Maent yn cynnwys data economaidd lefel uchel, data ar y farchnad lafur, data ar arloesi, sgiliau a menter a data ar gydlyniant cymdeithasol.</p>

<p>Argymhelliad 18. Dylid monitro'n agos effaith y toriadau yng ngwariant y sector cyhoeddus ar argaeledd arian cyfatebol ar gyfer prosiectau Cronfeydd Strwythurol yn ofalus a dylid cael cynlluniau wrth gefn os bydd angen.</p>	<p>Mae hyn yn rhan o'r ffordd y mae WEFO yn parhau i reoli risgiau gweithredu.</p> <p>Yn 2009, cytunwyd gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar lefelau ymyrryd diwygiedig yr UE sy'n caniatáu mwy o hyblygrwydd i leihau'r pwysau ar arian cyfatebol posibl.</p> <p>Mae Pwyllgor Monitro Rhaglen Cymru Gyfan wedi gofyn i gael eu hysbysu ynghylch effaith yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar arian cyfatebol ac yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2011, trafodwyd papur diweddarau: (wefo.wales.gov.uk/programmes/allwalespmc/pmcmarch2011/?lang=en)</p>
<p>Argymhelliad 19. Dylid herio WEFO i weithio mewn partneriaeth â'r holl brosiectau yn Rhaglenni 2007-13 i greu atebion cynaliadwy ar gyfer y cymunedau ac unigolion yr effeithir arnynt pan ddaw'r prosiectau hyn i ben.</p>	<p>Fel rhan o'r broses gynllunio busnes, mae disgwyl i bob prosiect drafod cynaliadwyedd eu gweithgareddau yn y dyfodol a/neu ddatblygu strategaethau ymadael addas. Bydd llawer o brosiectau presennol yn parhau i gyflwyno gweithgareddau o dan y rhaglenni presennol hyd 2015. Bydd offerynnau ariannol fel JEREMIE a JESSICA yn hwyluso'r gwaith o ailgylchu cronfeydd y tu hwnt i gyfnod presennol y rhaglen.</p> <p>Mae'r effaith cynaliadwy a gaiff buddsoddiadau yn ystyriaeth bwysig wrth ddewis prosiectau a bydd buddsoddiadau fel prosiectau sy'n ymwneud â hyfforddi ac uwchsgilio pobl, ynni adnewyddadwy a thrafnidiaeth gynaliadwy yn creu buddiannau yn yr hirdymor.</p>

Eitem 4

Y Pwyllgor Menter a Busnes
22 Medi 2011

EBC(4)-02-11 Papur 3

Tystiolaeth gan Edwina Hart, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

PAPUR I'R PWYLLGOR MENTER A BUSNES

1. Cyflwyniad

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Menter a Busnes am y gwahoddiad i amlinellu blaenoriaethau'r portffolio Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a rhoi'r diweddaraf ar faterion yr adroddiad etifeddiaeth. Nid yw'r papur hwn yn cynnwys meysydd portffolio'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, gan fy mod yn cael ar ddeall bod y Pwyllgor wedi rhoi gwahoddiad iddo hefyd.

2. Amseru

Mae'r papur hwn yn cael ei baratoi cyn sesiwn y Cynulliad. Felly er mwyn bod o gymorth i'r Pwyllgor rwyf wedi cymryd y cyfle yn y Papur hwn i amlinellu'r Ymrwymadau Llywodraeth allweddol yn fy mhortffolio a symud ymlaen gyda'r rheini. Byddaf yn gallu rhoi diweddariad llafar ar y cyd-destun polisi a'r materion ehangach i Aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod ei hun.

3. Camau Gweithredu'r Adroddiad Etifeddiaeth

Argymhelliad 20. Dylid parhau i graffu ar waith Llywodraeth Cymru ar y cyd â Llywodraeth y DU i egluro amserlenni a sicrhau digon o arian i ddarparu band eang y genhedlaeth nesaf ar draws Cymru gyfan erbyn 2015.

Yn dilyn ein trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf y bydd Cymru'n derbyn £56.9m (mae hyn yn cynnwys y £10m a ddyrannwyd eisoes ym mis Chwefror) o gronfa band eang o £530m, sydd i'w fuddsoddi yn y tymor Seneddol hwn. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru i gyflwyno band eang cyflym ar draws Cymru. Byddwn hefyd yn sicrhau buddsoddiad sylweddol gan y sector preifat i'r prosiect hwn, yn ogystal â chael cyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Ar 15 ac 16 Awst, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y dyraniadau cyllid oedd yn weddill i'r Alban, Gogledd Iwerddon ac awdurdodau lleol Lloegr. Dim ond cyfanswm o £425m sydd wedi cael ei ddyrannu, gyda'r £105m yn cael ei gadw fel cyllid wrth gefn i'w ddyrannu'n ddiweddarach. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion weithio'n ofalus gyda Llywodraeth y DU i bwysu am ragor o gyllid o'r £105m sy'n weddill.

Argymhelliad 21. Dylid parhau i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif: yn gyntaf i sicrhau bod dadansoddiadau cost a budd yn cael eu cynnal cyn gwneud unrhyw

newidiadau i strategaethau datblygu economaidd, ac yn ail i fesur a gwerthuso llwyddiant Rhaglen Adnewyddu'r Economi yn drylwyr.

Gall dadansoddiadau cost a budd gynnig cyfraniadau pwysig o ran gwerthuso opsiynau strategaeth a pholisi amgen. Mae hefyd angen ystyried y dystiolaeth ehangach i sicrhau bod strategaethau a pholisïau'n cynnig ymyriadau gwerth am arian, a hefyd yn seiliedig ar resymeg gadarn. Rwy'n gwbl ymrwymedig i sicrhau monitro a gwerthuso effeithiol, yn enwedig o ran sicrhau gwerth am arian.

Argymhelliad 31. Dylai pwyllgor yn y dyfodol hefyd graffu ar y polisi gwyddoniaeth newydd i Gymru, sy'n cael ei arwain gan y Prif Gynghorydd Gwyddonol, i sicrhau ei fod yn cyfrannu at fasnacheiddio syniadau Cymreig ym mhynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg.

Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar adroddiad ac argymhellion 'Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru', a baratowyd gan Brif Gynghorydd Gwyddonol Cymru a'r Cyngor Cynghori ar Wyddoniaeth Cymru, sy'n amlinellu cynigion ar gyfer y polisi newydd. Bydd yr ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid allweddol yn para tan ddiwedd mis Medi. Yna bydd cytundeb ar y polisi terfynol cyn ei gyhoeddi. Bydd y polisi'n strategaeth gyffredinol ar lefel gymharol uchel. Bydd cynlluniau cyflawni'n dilyn ar gyfer amryw agweddau ar y polisi, fel sy'n briodol.

4. Ymrwymadau allweddol

Band Eang

Ymrwymiad – ceisio sicrhau bod gan bob eiddo preswyl a busnes yng Nghymru fynediad i fand eang y genhedlaeth nesaf erbyn 2015, gyda'r uchelgais o fynediad i 100Mbps ar gyfer 50 y cant neu fwy.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau y bydd gan bob busnes ac eiddo preswyl yng Nghymru fynediad i fand eang y genhedlaeth nesaf erbyn 2015. Disgwylir y bydd gan 50% neu fwy ohonynt fynediad i 100Mbps. Nod prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru yw sicrhau bod pob busnes a chartref yng Nghymru yn gallu cael mynediad i fand eang cyflym erbyn 2015. Mae proses gaffael fawr yn mynd rhagddi ar hyn o bryd i brynu datrysiad band eang y genhedlaeth nesaf i rannau o Gymru lle na fydd y farchnad yn gofalu amdanynt. Gan ddefnyddio'r weithdrefn gystadleuol, disgwylir dyfarnu'r contract ym mis Mawrth 2012. Mae ymgeiswyr wedi cael eu gwahodd i gyflwyno cynlluniau ar gyfer band eang y genhedlaeth nesaf, a chaiff y cynlluniau hyn eu mireinio dros y misoedd nesaf mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol fel awdurdodau lleol. Disgwylir i'r gwaith o gyflwyno band eang ddechrau yn haf 2012.

Mae'r Cynllun Cymorth Band Eang hefyd yn mynd yn ei flaen yn dda. Mae'r cynllun yn cynnig grant o hyd at £1,000 i breswylwyr, busnesau a mudiadau trydydd sector mewn manau gwan ar gyfer derbyn band eang allu cael cysylltiad band eang gan ddefnyddio'r dechnoleg fwyaf priodol sydd ar gael. Mae nifer dda wedi manteisio ar y cynllun hyd yn hyn, ac rydym yn gweithio gyda nifer o gymunedau i ddod â gwasanaethau band eang da i'w hardaloedd am y tro cyntaf. Yn ddiweddar rydym

hefyd wedi cymeradwyo newidiadau i'r cynllun i symleiddio'r broses ymgeisio a chynyddu nifer y cwsmeriaid, gan gynnwys ymestyn y meini prawf o gysylltedd islaw 512Kbps i gysylltedd islaw 2Mbps a'r opsiwn i dalu cyflenwyr yn uniongyrchol.

Cymorth Busnes

Ymrwymiad – Cefnogi cwmnïau llwyddiannus o safon yn y rhannau hynny o'r economi a all greu gwaith, cyfoeth a Chymru gynaliadwy.

Mae chwe sector blaenoriaeth eisoes wedi'u sefydlu: TGCh, ynni a'r amgylchedd, deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch, diwydiannau creadigol, gwyddorau bywyd, a gwasanaethau ariannol a phroffesiynol. Rwyf hefyd wrthi'n ystyried sefydlu tri sector arall – bwyd-amaeth, adeiladu a thwristiaeth.

Mae pob un o'r sectorau'n datblygu strategaeth wedi'i thargedu i wneud gwahaniaeth go iawn i'r sectorau hyn yng Nghymru. Mae gan bob un ohonynt banel sector, sy'n cynnwys pobl fusnes ac ysgolheigion llwyddiannus a gwybodus, i helpu i ddatblygu'r strategaethau hyn, llywio'r broses o'u rhoi ar waith a sicrhau bod safbwyntiau diwydiant yn cael eu hadlewyrchu yn ein blaenoriaethau cyflawni a'n dull gweithredu. Bydd y panelau'n rhoi cyngor ar adnabod blaenoriaethau a dulliau gweithredu'r sectorau i sicrhau ein bod yn cael y fantais economaidd orau bosibl.

Ymrwymiad – byddwn yn disgwyl bod unrhyw fusnes sy'n ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru,, gan gynnwys contractau caffael cyhoeddus, yn llofnodi'n hegwyddorion cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, gydag ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy, hyfforddiant ac arferion cyflogaeth da.

Bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i unrhyw fusnes sydd am gael cymorth lofnodi'r egwyddorion cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ac annog cyflenwyr i wneud yr un fath. Fy nyhead yw bod yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn gosod esiampl yn hyn o beth. Rwyf wedi gofyn i swyddogion ddechrau gweithio ar hyn gyda'r partneriaid cymdeithasol i bennu'r lefelau priodol ar gyfer cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Ymrwymiad – byddwn yn parhau i feithrin cysylltiadau cryf gyda'n cwmnïau angori ac yn datblygu perthynas gref sy'n gefnogol/buddiol i bawb gyda'r cwmnïau allweddol hyn, gan eu hymgorffori yn economi Cymru drwy feithrin cysylltiadau agos gyda'n sefydliadau addysg bellach ac uwch a gwneud y gorau o gyfleoedd y gadwyn gyflenwi.

Y nod yw meithrin cysylltiadau strategol gyda chwmnïau o'r fath, a mabwysiadu safbwynt Llywodraeth gyfan ar eu hanghenion. Mae cynnydd sylweddol wedi bod o ran sefydlu cwmnïau angori, gyda mwy na deg ar hugain o gwmnïau'n cael eu cymeradwyo ac yn derbyn y statws. Mae'n cydweithio â'r byd academaidd yn hanfodol. Hefyd un o brif flaenoriaethau gwaith yr Adran fydd mapio a deall effeithiau'r cadwyn gyflenwi a'r manteision sy'n deillio o hynny.

Ymrwymiad – ceisio sefydlu Uned Troseddu Busnes Cymru i fynd i'r afael â throseddu busnes.

Rydym am i Gymru fod yn lle gwych ar gyfer busnes ac mae hynny'n golygu mynd i'r afael â phryderon allweddol gan fusnesau a rhwystrau o ran twf busnesau. Gyda chost troseddu busnes yn cynyddu, rydym yn adolygu'r gwaith a wnaed yng Nghymru yn y gorffennol ar droseddu busnes a byddwn yn datblygu cynigion gyda'r gymuned fusnes, heddluoedd Cymru a grwpiau eraill sydd â diddordeb i sefydlu Uned Troseddu Busnes Cymru.

Entrepreneuriaeth

Ymrwymiad – byddwn yn adolygu'r cymorth entrepreneuriaid y bydd ei angen ar gwmnïau newydd a bach sydd â photensial gwirioneddol i ffynnu a thyfu, a sut gallwn ymgorffori diwylliant entrepreneuriaid yng Nghymru.

Ers dechrau yn y swydd, rwyf wedi bod yn trafod yn helaeth gydag arweinwyr busnes, entrepreneuriaid a chynrychiolwyr diwydiant ym mhob cwr o Gymru i drafod y rhwystrau y mae busnesau'n eu hwynebu a sut gallwn sbarduno'r adfywiad economaidd. Rwy'n cymryd camau i asesu gofynion micro-fenter a'r ymyrraeth sydd ei hangen gan lywodraeth i ddarparu'r cymorth angenrheidiol ar gyfer twf a chynaliadwyedd. Gan ystyried hyn, rydym yn ailasesu'r opsiynau ar gyfer darparu'r gwasanaeth cymorth busnes rhanbarthol yn y dyfodol.

Menter Gymdeithasol

Ymrwymiad – byddwn yn sicrhau bod y sector cydfuddiannol a chydweithredol yn gallu cael cyngor busnes priodol a thrylwyr ac y bydd yr arweinydd Gweinidogol yn Adran yr Economi.

Mae'r cyfrifoldeb dros ddatblygu rôl y sector cydfuddiannol a chydweithredol yn economi Cymru bellach yn rhan o'm portffolio i. Bydd ei osod ochr yn ochr â gweithgareddau busnes a menter eraill yn helpu'r sector, o gwmnïau cydweithredol bach i gyrff cydfuddiannol mawr, i gael yr ystod lawn o wybodaeth fusnes yn ogystal â chynngor wedi'i deilwra.

Twristiaeth

Ymrwymiad – rhaid datblygu marchnadoedd gweithgareddau ac arbenigol, yn ogystal â sicrhau manteision gorau posibl drwy ddigwyddiadau mawr yn ein lleoliadau uchel eu proffil.

Ymrwymiad – hyrwyddo Cymru fel cyrchfan sy'n cynnig cyfleusterau twristiaeth o safon uchel. Gweithio i ymestyn y tymor ymwelwyr a'r manteision cysylltiedig. Dod o hyd i gyfleoedd cyllid i wella'r seilwaith a'r cynnyrch i ymwelwyr yng Nghymru. Cefnogi buddsoddiad mewn hyfforddi a rheoli staff i gefnogi diwydiant o safon uchel.

Mae hyrwyddo Cymru fel cyrchfan yn dal i fod yn swyddogaeth allweddol, gyda chymorth cyllid yr UE dros y blynyddoedd nesaf. Bydd y Cynllun Gweithredu Marchnata Strategol 2010-13, y cytunwyd arno ac y datblygwyd gyda'r diwydiant, yn parhau i ganolbwyntio ar weithgareddau marchnata twristiaeth yn y dyfodol. Bydd datblygu potensial digwyddiadau a gwyliau gweithgareddau yn parhau'n flaenoriaeth i helpu i ymestyn y tymor ymwelwyr. Yn y cyd-destun hwn, bydd cymorth cyllid yr UE

ar gyfer creu saith canolfan ragoriaeth yn helpu i wella'r gweithgareddau a gynigir yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth newydd gael ei ymestyn i roi cymorth i brosiectau seilwaith i ymwelwyr a phrosiectau capasiti newydd i sicrhau y caiff profiadau ymwelwyr eu gwella. Mae rhaglenni adfywio a datblygu gwledig eisoes yn gwneud buddsoddiadau sylweddol mewn cynlluniau seilwaith lleol.

Mae'r pedair Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol yn arwain ar ddarparu hyfforddiant i fusnesau yn eu hardaloedd. Bydd prosiect peilot cyfredol, a gaiff ei ariannu drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (dros 18 mis hyd at fis Rhagfyr 2011) a'i weinyddu gan People 1st, y Cyngor Sgiliau Sector Lletygarwch a Thwristiaeth, yn cael ei adolygu ddiwedd y flwyddyn i benderfynu ar y cymorth ar gyfer diweddarau sgiliau ar wahanol lefelau ar draws y sector lletygarwch a thwristiaeth.

Cymru Ddigidol

Ymrwymiad – rhoi strategaeth Cymru Ddigidol gan Lywodraeth Cymru ar waith gan ddefnyddio technolegau digidol. Mae'r ymrwymiad yn cynnwys galluogi cyfleoedd, sicrhau mwy fyth o atebolwydd a thryloywder, a sefydlu porth ar y we i'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig.

Mae strategaeth Cymru Ddigidol yn ceisio manteisio ar y cyfleoedd a rheoli'r risgiau sy'n codi o dwf yr economi a'r gymdeithas ddigidol yng Nghymru. Mae'n tynnu nifer fawr o weithgareddau, materion a thargedau ynghyd o amgylch pum thema strategol: cystadleurwydd, sgiliau, cynhwysiant, gwasanaethau cymdeithasol a seilwaith. Er mwyn cyflawni'r targedau bydd angen i bartneriaid y sector cyhoeddus a'r sector preifat ledled Cymru gymryd camau a rhoi cymorth ar y cyd.

5. Crynodeb

Rydym yn bwriadu cefnogi cwmnïau llwyddiannus o safon ym mhob rhan o'r economi a all greu gwaith, cyfoeth a Chymru gynaliadwy. Er mwyn adfer yr economi mae angen cymryd camau i adeiladu dyfodol cynaliadwy, tecach a chreu swyddi. Mae'n rhaid i'r economi fod yn flaenoriaeth dros bopeth arall yn y tymor nesaf.

Mae angen cymryd gwahanol gamau ym mhob portffolio i helpu i adfer yr economi. Mae hyn yn cynnwys cynigion i wella sgiliau, lleihau diweithdra ymysg pobl ifanc a rhoi'r cymorth angenrheidiol ar gyfer amgylchiadau economaidd gwell yng Nghymru. Caiff rhagor o fanylion am fy mlaenoriaethau yn dilyn fy adolygiad eu cyhoeddi'n fuan.

Leighton Andrews AC / AM
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref : SF-LA-5496-11

Andrew R T Davies AM
Chair, Enterprise and Business Committee,
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

29 July 2011

Dear Andrew

Thank you for your letter of 15th July following attendance at the Enterprise and Business Committee. You requested some additional information on three topics and I am pleased to be able to respond to these requests.

Enclosed you will find an update covering each element of the Youth Engagement and Employment Action Plan. There is much progress to report here. For example, three Intermediate Labour Market pilots have now commenced in North Wales, West Wales and the Heads of the Valleys. These are supporting young people aged 16-17 into paid employment. The pilots will create at least 180 placements and the learning generated through the pilot will help inform our approach to delivery of the Welsh Jobs Fund.

I hope that you will agree with me that we are also making real strides in reducing drop-out rates for apprenticeships. The headline figures here are a drop from 27% in 2007/08 to just 16% in 2009/10. The information provided gives a full breakdown by programme type.

Finally, in responding to your request for more information on the gender split in construction training, I attach information from our Work-based Learning programmes. The challenge of raising the level of engagement by females in the construction sector is significant in Wales, as it is across the UK. Information on actions in Wales to support greater female engagement is provided.

I hope that this information provides a full response in line with the expectations of the Committee and I look forward to working with you and the Committee over the course of this term.

*Yours sincerely,
Leighton Andrews*

Leighton Andrews AC / AM

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence: Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk
Printed on 100% recycled paper

YOUTH ENGAGEMENT AND EMPLOYMENT ACTION PLAN
2011 – 2015 (July 2011 update)

No.	Youth Engagement and Employment Action Plan	Timing	Update
1	<p>Ensure Welsh Assembly Government initiatives enhance but do not duplicate programmes introduced by DWP welfare reforms.</p>	<p>April 2011</p>	<p>Work Programme launched in Wales 16 June 2011. Both successful delivery providers invited to attend the Joint Employment Delivery Board helping to ensure that WP activities align and do not duplicate Welsh Government Provision;</p> <ul style="list-style-type: none"> - WEFO has issued revised eligibility criteria for ESF projects delivering under the Increasing Employment and Tackling Economic Inactivity Priority in order to ensure additionality of ESF projects over and above Work Programme provision; - Work ongoing to develop a better understanding of core DWP/ Welsh Government products for employers and to promote a better understanding with respective employer facing 'advisers' - Welsh Government engaged with the DWP Innovation Fund for Youth Employment to ensure it complements Welsh Government and other youth provision and services.

No.	Youth Engagement and Employment Action Plan	Timing	Update
2	<p>Pilot a new 'Pathway to Work' for 16-17 year olds which is not a new programme but the creation of a single, flexible and coherent 'routeway' for young people. This route would combine current approaches, enhanced where necessary, into a programme which offers a flexible but integrated and continuous journey towards sustainable employment or other positive outcome. Achievements of the young person will be celebrated at key points along the pathway, including soft skills achievements.</p>	November 2011	<p>A Steering Group has been established to provide advice and support to the Welsh Government on the development and implementation of the Pathways to Work concept across Wales. The next meeting will take place on 27th July.</p> <p>A marketing company has been contracted to support the marketing and communication of Pathways to Work. Initial marketing visuals and communications concepts have been completed and are currently being market tested with young people. A feasibility study has been completed on developing an online community for Pathways to Work.</p> <p>An initial review of NEET delivery commenced via initial mapping exercise to understand what provision underpins the Pathway to Work is to be followed up by more detailed analysis to be completed end of December 2011.</p>

No.	Youth Engagement and Employment Action Plan	Timing	Update
			<p>Supplementing the Pathway to work concept:</p> <ul style="list-style-type: none"> Three Vacancy matching pilots have been established to test whether a personalised, individual-to-vacancy matching approach backed up by post-employment training and mentoring, could get more unemployed young people into vacancies and then sustain employment. The projects are taking place in partnership between Welsh Government, Careers Wales and Job Centre plus in Blackwood, Cardiff and Haverfordwest and Pembroke. To further promote the service with employers and young people, employer engagement events are taking place in June and July across the 3 pilot areas. Intermediate Labour Market Programme (ILM) – 3 pilots have commenced (North Wales, West Wales and Heads of the Valleys) and will support young people aged 16-17 into paid employment at minimum wage or above for a 6 month period. This will create at least 180 placements.

No.	Youth Engagement and Employment Action Plan	Timing	Update
3	Carry out a review of existing funding and provision for young people who are NEET from across Wales, including European Social Fund programmes, to inform and introduce a revised process for the approval of the youth engagement and employment projects ensuring that resources and activities meet need, are not duplicated and offer the best possible service to the young person.	March 2012	Review of NEET delivery commenced via initial mapping exercise, to be followed up by more detailed analysis to be completed end of December 2011.
4	Seek to extend the opportunities available for young people to enter apprenticeship programmes, including development of the Pathways to Apprenticeships initiative and Young Recruits programme as part of the apprenticeship offer.	March 2011	Pathways to Apprenticeships and Young Recruits programmes developed and implemented as part of the broader apprenticeship offer. Online Apprenticeship Vacancy Matching Service rolled out as an all-Wales pilot on 15 th June 2011.
5	Introduce the use of social clauses in Welsh Assembly Government and wider public sector procurement contracts to create youth employment, work experience and training opportunities wherever practical, including assistance for those in receipt of grants and government support.	Ongoing	Work is underway to promote social clauses/community benefits in contracts across the Welsh Government. The Youth Engagement and Employment Team have been involved in the promotion of social benefits to create opportunities for young people in development of new contracts within the Welsh Government, for example, the new Housing Project.

No.	Youth Engagement and Employment Action Plan	Timing	Update
6	<p>Increase opportunities for work experience for those ages 14-24 across Wales, including extending opportunities within the Welsh Assembly Government, wider public sector, private and voluntary sector.</p>	Ongoing	<p>The Youth Engagement and Employment Unit also is a member of the sustainable benefits board, which is chaired by Value Wales.</p> <p>We have established the 'Real Conversation' which aims to support young people into employment by bringing employers, young people and practitioners together to improve work experience and employment opportunities for those aged 14-24. The Real Conversation hopes to promote the real benefits and value of work experience for a young person to enable them to gain a satisfying career in the future. A steering group has been established, from internal and external organisations, to develop and support the delivery of the Real Conversation.</p> <p>The first event took place in Cardiff in March and the delivery of actions is underway. The next Real Conversation event will be held in West Wales in the autumn and will focus on the labour market intelligence Project, specifically looking at the potential of developing a rating system of jobs across Wales</p>

No.	Youth Engagement and Employment Action Plan	Timing	Update
7	Establish a new team with overarching responsibility for youth engagement and employment.	October 2010	Youth Engagement & Employment Unit established in October 2010.
8	Seek to set the overall approach to youth engagement and employment in Wales. This will incorporate opportunities for vulnerable young people and those with additional learning needs, and will inform local authority leadership arrangements by building on positive initiatives from across all sectors (including private, voluntary and public sectors) and analysing NEET hotspots with a view to sharing good practice.	March 2012	<p>Youth Engagement and Employment Action Plan published in January 2011. Implementation of Action Plan being overseen by Youth Engagement and Employment Delivery Board.</p> <p>In January 2011, working closely with the Department for Education and Skills, the Welsh Government's Efficiency and Innovation Programme Work Stream commissioned a study of the approaches being taken in the local authorities of Swansea and Wrexham, as two areas that have reported some of the best and most improved results in Wales in terms of reducing the proportion of young people not in education, employment or training.</p> <p>The comprehensive study has involved semi-structured interviews and focus groups with staff at all levels in Wrexham and Swansea, a focus group with young people, a literature review on the costs of young people not in education, employment of training and the development of a cost appraisal model.</p>

No.	Youth Engagement and Employment Action Plan	Timing	Update
			<p>A final report and summary is now available and Delivery Board members have been requested to consider the information in respect of their respective areas of policy development. The report is due for publication on the Welsh Government's website in July 2011.</p> <p>Review of NEET delivery commenced via initial mapping exercise, to be followed up by more detailed analysis to be completed end of December 2011.</p>
9	<p>Ensure Children and Young People's Partnerships are working effectively and that all are brought to the standard of the best.</p>	<p>Ongoing</p>	<p>Children and Young People's Partnerships have completed consultations on their draft CYP Plans for 2011-14 and final versions are either published or being finalised. Comments from officials on draft versions were summarised and sent to each Partnership, enabling lead officials to provide feed back on their policy and programme areas. Further work to establish systems to evidence performance of partnerships awaits the result of current consideration by the WG of the wider landscape of partnerships and plans with a view to possible reduction in complexity.</p>

No.	Youth Engagement and Employment Action Plan	Timing	Update
